| MEWNBYNNAU | Arweinyddiaeth a Diwylliant | Rheoli Data ac Iechyd y Boblogaeth | Cyllid ac Adnoddau | Y Gweithlu | Cynnwys y Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| CAMAU GWEITHREDU | **Pob Corff Cenedlaethol:** Sicrhau bod arweinyddiaeth ar lefel bwrdd yn atebol am wreiddio tegwch mewn strategaeth a chyflawniad.<br><br>**Perfformiad a Gwella GIG Cymru:** Penodi arweinydd tegwch dynodedig mewn rhwydweithiau cardio-metabolig ac anadlol sydd â'r nod o ehangu'r rôl hon ar draws pob rhwydwaith clinigol dros amser.<br><br>**Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC):** Cynhyrchu a chyflwyno hyfforddiant a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar degwch.<br><br>**ICC / Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC):** Darparu datblygiad arweinyddiaeth ar gyfer byrddau iechyd a chlystyrau gofal sylfaenol i gryfhau galluoedd arweinyddiaeth mewn rheoli iechyd y boblogaeth (PHM) a diwylliant tegwch. | **Perfformiad a Gwella (PaG) GIG Cymru:** Sicrhau bod holl ddata rhaglenni cardio-metabolig ac anadlol yn cael eu dadgyfuno a'u monitro trwy lens tegwch iechyd.<br><br>**ICC:** Arwain wrth nodi a hyrwyddo arferion gorau ar gyfer dadgyfuno data, defnyddio tystiolaeth, a gwerthuso ymyriadau effeithiol sy'n canolbwyntio ar degwch.<br><br>**ICC:** Cydlynu a datblygu fframwaith gwerthuso er mwyn rhoi'r cynllun gweithredu hwn ar waith.<br><br>**Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) / ICC / AaGIC:** Blaenoriaethu dadansoddi gwell ar y setiau data sy'n bodoli dros gasglu data newydd. | **ICC:** Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer enillion ariannol a chymdeithasol ar fuddsoddiadau sy'n canolbwyntio ar degwch, a chefnogi strategaethau ar gyfer dyrannu cyllid yn fwy teg. | **ICC / AaGIC / Partneriaid Academaidd:** Adolygu a darparu opsiynau priodol ar hyfforddiant anghydraddoldebau iechyd ar gyfer cwricwla hyfforddi gweithwyr iechyd israddedig ac ôl-raddedig, DPP, a hyfforddiant dechreuwyr newydd clinigol ac anghlinigol.<br><br>**Pob Corff Cenedlaethol:** Gwreiddio dull a sgiliau iechyd y boblogaeth ar gyfer pawb sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau Gofal Sylfaenol.<br><br>**Pob Corff Cenedlaethol:** Meithrin dull iechyd y boblogaeth yn niwylliant pawb sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau Gofal Sylfaenol. | **PaG GIG Cymru:** Gwreiddio ymgysylltu strwythuredig â'r gymuned yn cynnwys profiad bywyd, mewn prosesau datblygu strategaeth.<br><br>**ICC / PaG GIG Cymru:** Hyrwyddo diffiniad unedig, clir o ofal sylfaenol i'r gymuned, er mwyn cefnogi ymgysylltiad.<br><br>**ICC:** Darparu arweinyddiaeth a phecynnau cymorth sy'n galluogi'r gymuned ac arbenigwyr trwy brofiad i fod yn rhan o'r cynllunio a'r gwerthuso. |